**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 05-02(p9)**

**Dyddiad:** **6 Mawrth 2002**
**Amser:** **2.00 - 5.30pm**
**Lleoliad:** **Ystafell Pwyllgor 1, Cynullaid Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **Gweithgor ar Ehangu**

**Diben**

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd am y gwaith a wnaeth Gweithgor y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar Ehangu.

**Argymhelliad**

2. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn o'r blaen am gael gwybod am unrhyw gynnydd a gwahoddwyd yr Aelodau i nodi'r sefyllfa bresennol.

**Cefndir**

3. Cyfarfu'r Gweithgor ar Ehangu am y tro cyntaf ar ddydd Llun 8 Hydref 2001. Cyflwynwyd adroddiad y cyfarfod hwnnw gerbron y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar ddydd Mercher 17 Hydref a gerbron y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar ddydd Mercher 14 Tachwedd.

4. Ers hynny cyfarfu'r Gweithgor ar ddydd Mercher 16 Ionawr 2002. Cyflwynwyd adroddiad o'r cyfarfod hwnnw gerbron y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar ddydd Mercher 13 Chwefror. Mae copi o'r papur EUR-01-02(p6) yn amgaeedig.

5. Roedd y papur yn cynnwys nifer o argymhellion, fel a ganlyn:

- Dylid cyflwyno rhestr fer o'r ymgeiswyr posibl ar gyfer "gefeillio" â Llywodraeth Cynulliad Cymru gerbron y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol;
- Yn unol â chanlyniadau ac argymhellion adroddiadau archwilio Rhwydwaith Gwybodaeth Ewropeaidd Cymru (WEIN), bydd y Cynulliad Cenedlaethol (drwy'r Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol) yn archwilio sut i hyrwyddo gwaith WEIN drwy rannu cyfrifoldebau i'w gynnal a darparu cymorth ymarferol ar gyfer ei weinyddu;
- Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd eisoes yn WEIN, drwy fynd i'r afael ag adolygiad i ddarganfod yn union pa wybodaeth sydd ei hangen ar y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ac ar ba ffurf y dylid ei chyhoeddi.

6. Gwahoddwyd aelodau o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i ystyried y rhestr fer o

ymgeiswyr posibl ar gyfer eu "gefeillio" â Chymru yn Atodiad A o EUR-01-02(p6) ac i adrodd yn ôl o fewn pythefnos. Derbyniwyd y ddau argymhelliad arall yn ymwneud â gwaith WEIN.

**Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol**

## Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL EUR-01-02(p6)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **13 Chwefror 2002** |
| **Amser** | |
| **Lleoliad** | |
| **Teitl** | **Y Gweithgor ar Ehangu** |

**Diben**

1. Darparu adroddiad ar ail gyfarfod y Gweithgor ar Ehangu, a gynhaliwyd ddydd Mercher 16 Ionawr 2002.

   **Argymhelliad**

2. Mae'r aelodau yn cytuno ar yr argymhellion a wnaethpwyd gan y Gweithgor ar Ehangu ac maent wedi llunio safbwynt ar ba wledydd ac ardaloedd o'r UE a oedd yn ymgeisio y dylai'r Cynulliad "efeillio" â hwy.

**Cefndir**

3. Yn y cyfarfod ar 28 Mehefin 2001, cytunodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar gylch gorchwyl drafft ar gyfer gweithgor i ystyried materion ehangu. Gwnaeth y Gweithgor ar Ehangu gyfarfod am y tro cyntaf ddydd Llun 8 Hydref 2001. Cyflwynwyd adroddiad o'r cyfarfod hwnnw i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar 17 Hydref 2001 a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 14 Tachwedd 2001. Cynhaliwyd ail gyfarfod y Gweithgor ddydd Mercher 16 Ionawr 2002.

   **Adroddiad ar Gyfarfod y Gweithgor ar Ehangu, 16 Ionawr 2002**

4. Esboniodd Graham Styles (Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad) beth oedd ynghlwm wrth y Rhaglen Efeillio a ariannwyd gan yr UE (a oedd ar wahân i'r gefeillio "gwleidyddol" y cyfeiriwyd ato ym mharagraffau 2 a 9). Yna, gwnaeth Rodney Berkeley (yr Adran Masnach a Diwydiant) amlinellu'r materion allweddol oedd ynghlwm wrth sefydlu a chymryd rhan mewn prosiect gefeillio. Ni wnaed unrhyw argymhellion penodol, er y

cytunodd y Grp y dylai'r wybodaeth ar Efeillio gael ei dosbarthu (lle bo hynny'n briodol) i'r sectorau preifat a gwirfoddol.

5. Yr oedd Papur WGE(02)01 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grp ar y cyfarfodydd a gafwyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r gwledydd a oedd yn ymgeisio ers y cyfarfod diwethaf ym mis Hydref.
6. Yr oedd Papur WGE(02)02 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar sefyllfa'r 12 gwlad a oedd yn ymgeisio ym mhroses y trafodaethau ehangu.

7. Yr oedd Papur WGE(02)03 yn nodi'r cysylltiadau y mae Cymru eisoes wedi eu sefydlu gyda'r gwledydd sy'n ymgeisio. Cydnabyddwyd bod y papur yn cynnwys maes eang iawn o weithgarwch ac nid oedd wedi'i gwblhau hyd yn hyn, ond yr oedd yn sail addas i weithredu arno.
8. Daeth y grp i'r canlyniad ei fod yn bwysig i'r Cynulliad benderfynu'n fuan pa un o'r gwledydd sydd yn ehangu y dylai "efeillio" â hwy. Cytunwyd y dylid rhoi rhestr fer o ymgeiswyr posibl ger bron y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. **Mae Atodiad A o'r papur hwn yn nodi nifer o opsiynau i'r Pwyllgor eu hystyried.** Mae'n defnyddio crynodeb o gysylltiadau a ganfuwyd hyd yn hyn (Atodiad B) a phroffiliau byr a baratowyd gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru, o'r chwe ardal a ganfuwyd yn flaenorol fel ymgeiswyr posibl(Atodiadau C1-6).
9. Yr oedd Papur WGE(02)04 yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella'r systemau gwybodaeth sydd ar gael ledled Cymru. Cytunwyd ar yr argymhellion canlynol:

- Yn unol â chanlyniadau ac argymhellion adroddiadau archwilio Rhwydwaith Gwybodaeth Ewropeaidd Cymru (WEIN), bydd y Cynulliad Cenedlaethol (drwy'r Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol) yn archwilio sut i hyrwyddo gwaith WEIN drwy rannu'r cyfrifoldebau i'w gynnal a darparu cymorth ymarferol ar gyfer ei weinyddu ;
- Bod y Cynulliad Cenedlaethol yn adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd eisoes yn WEIN, drwy fynd i'r afael ag adolygiad i ddarganfod yn union pa wybodaeth sydd ei hangen ar y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ac ar ba ffurf y dylid ei chyhoeddi

7. Yr oedd Papur WGE(02)05 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grp ar ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r Ail Adroddiad ar Gydlyniad.

**Cydymffurfiaeth**

8. Mae Rheol Sefydlog 15 yn cwmpasu gweithgaredd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd. Sefydlwyd y gweithgor ar sail pwerau'r Cynulliad o dan Adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Grp ymgynghori anffurfiol iawn yw'r gweithgor a'i brif dasg fydd adrodd i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd. Cysylltwyd eisoes â Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad ac maent yn hapus gyda'r agweddau cydymffurfiaeth.

**Goblygiadau Ariannol**

9. Nid oes yna unrhyw oblygiadau ychwanegol i'r Cynulliad yn deillio o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad.

**Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol**